

# Cymdeithas Tai Merthyr Tudful

## Cynllun Iaith Gymraeg



Paratowyd y cynllun iaith Gymraeg hwn yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (Y Ddeddf) a'r cod Rheoliadol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2006.

Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg dan adran 14(1) o'r Ddeddf ar **20/10/09**

## **1. Datganiad Agoriadol**

### **Nod y cynllun**

Mae Cymdeithas Tai Merthyr Tudful (MTHA) wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Amcanion:

- Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
- Annog eraill i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae MTHA yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith. Mae hefyd yn cydnabod mai mater o arfer da yn hytrach na chonsesiwn yw galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac y gallai gwadu'r hawl iddynt ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi dan anfantais.

## **2. Cyflwyniad**

### **Cefndir a Gwerthoedd Corfforaethol**

Mae Cymdeithas Tai Merthyr Tudful yn gymdeithas dai elusennol sydd wedi'i chofrestru dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Sefydlwyd y Gymdeithas yn 1977 ac fe'i ffurfiwyd o gangen leol o'r elusen Shelter. Ei nod gwreiddiol oedd mynd i'r afael â phrinder llety arbenigol a'r dirywiad mewn cymunedau tai teras.

### **Ein Diben**


Gweithio gyda phobl i wella eu bywydau.

### **Ein Gweledigaeth**

Byddwn yn gweithio gyda phobl o fewn bwrdeistref Merthyr Tudful ac yn darparu tenantiaethau cynaliadwy mewn llety o ansawdd o fewn cymunedau bywiog.

### **Strwythur ac Ardal weithredu**

Mae Bwrdd Rheoli gwirfoddol, di-dâl, y mae Prif Weithredwr yn atebol iddo, yn goruchwyllo'r Gymdeithas. Mae strwythur yr uwch reolwyr fel a ganlyn:



Mae'r Gymdeithas yn cyflogi 47 o aelodau staff yn ei swyddfa yn 11/12 Stryd Fawr Isaf, Merthyr Tudful, CF47 8EB.

### Defnyddwyr Gwasanaeth

Mae'r Gymdeithas yn gweithio o fewn y cymunedau sy'n ffurfio Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn unig ac yn darparu cartrefi i'w rhentu a gwasanaethau cysylltiedig i bobl na allant fforddio prynu neu rentu eiddo ar y farchnad agored. Mae'r Gymdeithas yn rheoli 1,183 o gartrefi. Mae cymysgedd o Grant Tai Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru (58% ar hyn o bryd) a benthyciadau o'r sector preifat wedi talu am y rhain.

### Yr Iaith Gymraeg

Bydd y ffigyrau hyn yn cael eu diweddarau yn dilyn canlyniadau Cyfrifiad Cenedlaethol 2021. Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae'r tabl canlynol wedi'i gymryd o ddata Llywodraeth Cymru ynghylch defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15.

Rhugl			Ddim yn rhugl		
2004-06	2013-15	Gwahaniaeth	2004-06	2013-15	Gwahaniaeth
2,000	1,500	-600	1,900	4,600	2,800

Tabl 2: Siaradwyr Cymraeg yn ôl rhuglder ac ardal awdurdod lleol, 2004-06 a 2013-15 (Merthyr Tudful)

Ffynhonnell

[Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15 \(llyw.cymru\)](#)

### Merthyr Tudful

Byddwn yn ymdrechu i weithredu yn unol ag egwyddorion Iaith Pawb, cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog.

O'r ymatebwyr i'n cyfrifiad tenantiaid yn 2021, mae gennym 9 tenant (0.8%) sydd naill ai'n gallu siarad Cymraeg a/neu ysgrifennu Cymraeg.

Yr unigolyn cyswllt ar gyfer y Cynllun Iaith yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, y gellir cysylltu â hi ar 01685 352807, neu drwy heather.beynon@mtha.org.uk.

### **3. Cynllunio a Darparu Gwasanaethau**

#### **3.1 Polisiâu a Mentrau**

3.1.1 Wrth lunio polisiâu a mentrau newydd, neu wrth adolygu a diwygio polisiâu, bydd MTHA yn asesu eu heffaith ieithyddol ac yn sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn ac yn sicrhau bod y mesurau yn y Cynllun yn cael eu gweithredu pan fo polisiâu a mentrau newydd yn cael eu rhoi ar waith.

3.1.2 Bydd MTHA yn ymgynghori â'r Bwrdd ymlaen llaw ynghylch unrhyw gynig a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar y Cynllun Iaith hwn. Ni fydd y Cynllun yn cael ei ddiwygio heb gytundeb ymlaen llaw gan y Bwrdd.

3.1.3 Byddwn yn sicrhau bod pwy bynnag sydd yn rhan o broses llunio'r polisiâu yn ymwybodol o'r Cynllun a chyfrifoldebau MTHA dan y Cod Rheoliadol a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

3.1.4 Gall Cymdeithasau Tai gyfrannu at ddatblygiad yr iaith Gymraeg ar lefel leol neu gymunedol a byddwn yn anelu at sicrhau bod polisiâu a mentrau newydd MTHA yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.

#### **3.2 Darparu Gwasanaeth**

3.2.1 Byddwn yn sicrhau bod cymaint o'n gwasanaethau â phosibl ar gael yn Gymraeg a byddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fyddant ar gael.

3.2.2 Bydd MTHA yn cyflawni'r ymrwymadau a nodwyd yn y cynllun drwy weithredu'r trefniadau canlynol:

- Rhannu gwasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg â sefydliadau cyfagos sy'n darparu'r un gwasanaethau, neu brynu gwasanaethau ganddynt.
- Mabwysiadu systemau neu weithdrefnau sy'n hwyluso darparu gwasanaeth yn y dewis iaith gan y sawl sy'n derbyn y gwasanaeth.
- Cyflogi cyfieithwyr proffesiynol os oes angen.
- Codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith ymhlith staff MTHA.

#### **3.3 Gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd gan sefydliadau eraill**

## **Swyddogaethau Rheoleiddio a gwasanaethau trydydd parti**

3.3.1 Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau sydd yn cael eu gwneud â thrydydd parti yn gyson ag adrannau perthnasol y Cynllun hwn.

### **Partneriaethau**

3.3.2 Bydd MTHA yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o ofynion y Cynllun iaith wrth weithredu mewn partneriaeth.

### **3.4 Safonau ansawdd**

3.4.1 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg o'r un ansawdd a chânt eu darparu o fewn yr un amserlen.

3.4.2 Bydd MTHA yn pwysleisio'r egwyddor ganolog hon mewn dogfennau allweddol fel cynlluniau corfforaethol ac adroddiadau blynyddol. Dylid ei hamlinellu hefyd mewn sefyllfaoedd eraill lle gwneir datganiadau ynglŷn â chyfle cyfartal a safon gwasanaeth.

## **4. Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg**

### **4.1 Gohebiaeth**

4.1.1 Mae MTHA yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.

4.1.2 Ymdrinnir â phob gohebiaeth yn brydlon ac ni ddylai gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg arwain at oedi.

4.1.3 Pan mae rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg (os oes angen ymateb).

4.1.4 Bydd pob gohebiaeth yn dilyn galwad ffôn neu sgwrs wyneb yn wyneb yn Gymraeg neu gyfarfod lle y cadarnhawyd mai'r Gymraeg yw dewis iaith yr unigolyn, yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.1.5 Byddwn yn cadw cofnod o'r bobl hynny sydd am gyfathrebu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.1.6 Byddwn yn cytuno ar drefniadau i gyfieithu gohebiaeth.

### **4.2 Cyfathrebu dros y ffôn**

4.2.1 Er mwyn llwyddo i gyflawni'r nod o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, byddwn yn cymryd y camau canlynol i alluogi siaradwyr Cymraeg i ddelio â MTHA yn Gymraeg dros y ffôn:

- Darparu cyfeiriadur mewnol o siaradwyr Cymraeg y gellir trosglwyddo galwadau iddynt.

- Darparu canllawiau i staff ar sut i ddelio â galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r trefniadau.

### **4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus**

4.3.1 Pan mae MTHA yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, yn cynnwys cynadleddau a digwyddiadau tebyg, bydd croeso i'r rhai sydd yn bresennol gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

4.3.2 Pan mae siaradwyr Cymraeg ymhlith y rhai sydd wedi'u gwahodd i fynychu'r digwyddiad, neu ein bod yn ymwybodol bod siaradwyr Cymraeg yn bwriadu bod yn bresennol, dylid trefnu cyfleusterau cyfieithu.

### **4.4 Cyfarfodydd eraill**

4.4.1 Mae MTHA yn croesawu cyfarfodydd â'r cyhoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg ond, o ganlyniad i brinder siaradwyr Cymraeg, ni allwn warantu cyfarfod wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg. Dan amgylchiadau o'r fath, byddwn yn esbonio'r sefyllfa yn gwrtais ac yn cynnig opsiynau eraill, fel trefnu cyfieithydd neu gynnal y cyfarfod yn Saesneg.

### **4.5 Cyfathrebu â'r Cyhoedd mewn ffyrdd eraill**

Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ym mha bynnag ffordd yr ydym yn delio â'r cyhoedd.

## **5. Wyneb Cyhoeddus MTHA**

### **5.1 Arwyddion**

5.1.1 Pan fyddwn yn adnewyddu neu'n gosod arwyddion newydd byddwn yn sicrhau bod y fersiynau newydd yn gwbl ddwyieithog. Bydd arwyddion sydd yn cael eu gosod am y tro cyntaf yn gwbl ddwyieithog.

5.1.2 Bydd maint, safon eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar yr arwyddion yn parhau'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol.

5.1.3 Mae prosesau ar waith i sicrhau cywirdeb testun, a byddwn yn cydlynu ac arolygu hynny'n ofalus, yn enwedig wrth gyflawni gwaith.

5.1.4 Wrth ddatblygu ystâd newydd neu lety arall, bydd MTHA yn awgrymu enw sy'n gyson â threftadaeth a hanes yr ardal.

### **5.2 Cyhoeddi ac argraffu deunyddiau**

5.2.1 Byddwn yn cynhyrchu ein dogfennau strategol allweddol neu'r rhai sydd wedi eu hanelu at y cyhoedd yn gyffredinol yn ddwyieithog ar gais.

5.2.2 Byddwn yn sicrhau bod staff a'r rhai sydd â chyfrifoldeb am argraffu yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi.

## **Gwefan**

5.2.3 Bydd dogfennau allweddol ar gael yn ddwyieithog ar ein gwefan ar gais.

## **5.3 Ffurflenni a deunydd esboniadol**

5.3.1 Byddwn yn cynhyrchu ffurflenni dwyieithog pan fydd hynny'n rhesymol ymarferol ac yn briodol dan yr amgylchiadau.

5.3.2 Pan fyddwn yn cynhyrchu ffurflenni dwyieithog, ein harfer safonol fydd cynhyrchu ffurflenni dwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd yn yr un ddogfen.

## **5.4 Datganiadau i'r Wasg**

5.4.1 Mae datganiadau i'r wasg yn rhan amlwg o wyneb cyhoeddus MTHA ac felly byddwn yn eu cyhoeddi yn ddwyieithog pan mae hynny'n briodol dan yr amgylchiadau.

## **5.5 Marchnata ac Ymgyrchoedd Cyhoeddusrwydd**

Bydd ein hymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio gydag adrannau perthnasol o'r Cynllun hwn.

## **5.6 Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff**

5.6.1 Bydd ein hysbysiadau swyddogol a hysbysiadau cyhoeddus yn ddwyieithog pan mae hynny'n briodol dan yr amgylchiadau. Byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

5.6.2 Bydd ein hysbysebion recriwtio staff yn ddwyieithog ar gyfer swyddi pan mae sgiliau Cymraeg yn ofynnol.

5.6.3 Bydd pecynnau gwybodaeth, fel swydd ddisgrifiadau a manylebau person, yn cael eu paratoi yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer pob swydd lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

## **6. Gweithredu ac Adolygu'r Cynllun**

### **6.1 Staffio**

6.1.1 Bydd MTHA yn gwneud trefniadau i sicrhau, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, bod gan weithleoedd sydd â chysylltiad â'r cyhoedd fynediad at staff sydd â sgiliau Cymraeg priodol i alluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg. Bydd y graddau y mae hyn yn angenrheidiol neu'n bosibl yn amrywio yn dibynnu ar y gwasanaeth a'r ardal.

6.1.2 Byddwn yn cynyddu adnoddau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Iaith mewn modd sensitif drwy annog a chefnogi holl aelodau'r staff i gymryd rhan. Byddwn yn datblygu sgiliau yn yr iaith yn ogystal ag agwedd gefnogol tuag at ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Ni ddylai staff nad ydynt yn siarad Cymraeg deimlo dan fygwthiad, ac ni ddylid atal y rhai hynny sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg rhag ei hymarfer. Byddwn yn trin sgiliau iaith mewn modd tebyg i unrhyw sgiliau eraill y mae angen eu datblygu yn y gweithle.

## **6.2 Recriwtio**

6.2.1 Pan mae'n ddymunol neu'n hanfodol bod ymgeisydd yn meddu ar sgiliau yn yr iaith Gymraeg, nodir hynny'n glir yn adran cymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion. Byddwn hefyd yn nodi lefel y cymhwysedd sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd, er enghraifft "bod yn siaradwr Cymraeg rhugl."

## **6.3 Hyfforddiant iaith Gymraeg**

6.3.1 Byddwn yn cefnogi'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn drwy annog a chefnogi aelodau staff i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau yn y Gymraeg.

6.3.2 Mae'n ddefnyddiol bod dysgwyr yn ymwybodol o gydweithwyr a all siarad Cymraeg a byddwn yn annog staff i geisio helpu'r rhai hynny sy'n dysgu.

6.3.3 Bydd geiriaduron a deunydd electronig ar gael i helpu aelodau staff sy'n dysgu'r Gymraeg.

6.3.4 Bydd MTHA hefyd yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff o ran gofynion y Cynllun hwn yn flynyddol. Ein harfer safonol fydd cynnwys hyfforddiant o'r fath wrth gynefino staff newydd.

## **6.5 Trefniadau Gweinyddol**

6.5.1 Mae gan y Cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn MTHA. Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r Cynllun Iaith ac mae gan holl aelodau staff y Gymdeithas gyfrifoldeb i wybod sut i weithredu'r Cynllun yn effeithiol.

6.5.2 Bydd y cyfarwyddwr perthnasol yn gyfrifol am weithredu cymalau'r Cynllun Iaith.

## **6.6 Adolygu Gweithrediad y Cynllun**

6.6.1 Mae'r uwch swyddog canlynol yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun hwn: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

6.6.2 Byddwn yn defnyddio gweithdrefn gwynion safonol MTHA i gofnodi ac ymdrin â chwynion ynghylch y Cynllun hwn, a byddwn yn sicrhau y bydd yn bosibl monitro cwynion penodol ynghylch y Cynllun.



6.6.3 Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd i'r Bwrdd Rheoli yn flynyddol a bydd yn anfon copi o'r adroddiad at Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn dilyn fformat y cytunwyd arno gyda'r Bwrdd a bydd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau ynghylch gwella'r Cynllun sydd wedi dod i law gan y cyhoedd.

## **6.7 Cyhoeddi Gwybodaeth**

6.7.1 Byddwn yn cynnwys datganiad yn ein hadroddiad blynyddol yn nodi lle y gall aelodau'r cyhoedd gael copi o'n hadroddiad monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

## **6.8 Cyhoedduswydd**

6.8.1 Byddwn yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd sy'n ymdrin â MTHA yn ymwybodol o'r Cynllun hwn a'i gynnwys, a sut y gallant gynnal eu busnes gyda'r Gymdeithas yn Gymraeg.

6.8.2 Bydd ein dulliau o roi cyhoedduswydd i'r Cynllun a'i gynnwys yn dilyn ein trefniadau cyhoedduswydd corfforaethol arferol, a byddwn yn sicrhau y cyhoeddir y Cynllun mewn lle amlwg ar ein gwefan.

6.8.3 Byddwn yn sicrhau bod staff ac asiantaethau'r Gymdeithas yn gyfarwydd â'r mesurau a gynhwysir yn y Cynllun er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r mesurau pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.